ESGOBAETH LLANELWY
TYFU FFYDD • DOD Â GOBAITH • DANGOS CARIAD
GROW FAITH • BRING HOPE • DEMONSTRATE LOVE
DIOCESE OF ST ASAPH


A ROCHA BRONZE ECO DIOCESE AWARD WINNER 2021 ECO CHURCH learn more

# Gwasanaeth mewn Bocs yr Eco-Eglwys ar gyfer Disgyblion sy'n Ymadael

Dewch ar daith drwy'r byd naturiol gyda Blwyddyn 6 wrth iddyn nhw baratoi i bontio o'r ysgol gynradd i Flwyddyn 7. Archwiliwch elfennau dŵr, daear, gwynt a thân drwy addoli creadigol yn yr awyr agored a gweithgareddau gweddigar.









'Gwasanaeth mewn Bocs'  gyda'r Parch Paulette Gower a Thîm addysg Llanelwy



# DŴR

**Byddwch angen:** naill ai powlen o ddŵr, nant, afon neu'r môr
**Bydd pawb angen:** darn o sialc a charreg fechan

**Myfyrdod:** Yn eich amser yn yr ysgol hyd yn hyn mi fydd yna lawer o bethau a fu'n anodd a chaled. Adegau pan yr oedd pobl eraill yn dweud neu'n gwneud pethau wnaeth i chi deimlo'n ddryslyd tu mewn. Efallai i chi ddweud neu wneud pethau i eraill yr ydych chi'n eu difaru erbyn hyn, neu'n teimlo'n ddrwg yn eu cylch?

**Gweithgaredd:** Cymerwch garreg fechan a thynnwch lun neu ysgrifennwch air arni sy'n cynrychioli atgof o'ch amser yn yr ysgol yr hoffech chi gael gwared ohono. Does dim angen i neb weld yr hyn rydych chi wedi ei ysgrifennu. Pan rydych yn barod, ewch â'ch carreg a naill a'i ei thaflu'n ofalus neu ei gosod hi yn yr afon/nant/môr...neu ei golchi mewn powlen o ddŵr.

**Dychmygwch fod y dŵr yn golchi ymaith yr holl atgofion anodd neu anhapus hynny.**

**Darlleniad o'r Beibl:** Salm 51 ; 1-2, 7 (Addasiad o fersiwn Beibl.net)

O Dduw hael a chariadus, helpa fi! Dilea fy nghofnod negyddol. Dilea fy euogrwydd, oherwydd rydw i'n gwybod fy mod wedi bod yn ddrwg ar adegau. Golcha'r drygioni ohonof fi'n llwyr, fel fy mod yn bur a glân. Golcha fi, er mwyn imi allu mynd yn fy mlaen i ddechreuad newydd.

ESGOBAETH LLANELWY
TYFU FFYDD • DOD Â GOBAITH • DANGOS CARIAD
GROW FAITH • BRING HOPE • DEMONSTRATE LOVE
DIOCESE OF ST ASAPH

# Gweddi

**O Dduw Cariadus,**
**Gofynnaf i ti faddau i mi ac i eraill a dileu holl loes a phoen y pethau sydd wedi digwydd, ac yn eu lle roi i mi dy hedd a dy gariad.**
**Amen**




# DAEAR

**Byddwch angen:** ffordd o wneud olion traed (mewn mwd, tywod, paent. Gweler y daflen syniadau).

**Myfyrdod:** Roedd Chief Seattle yn bennaeth Pobl Duwamish Gogledd America. Mewn araith yn 1854 dywedodd y Geiriau, **'Ewch â dim ond atgofion, Gadewch dim ond olion traed.'**
Tybed beth fyddai'ch atgofion chi o'ch amser yn yr ysgol hon a pha olion traed fyddwch chi yn eu gadael ar ôl fel cofnod o'ch amser yma?

**Gweithgaredd A: Rhannu Atgofion**
Rhannwch atgof gyda rhywun arall o'ch amser yn yr ysgol. Yna gwrandewch ar eu hatgof nhw, a phan rydych yn barod, symudwch at y person nesaf. (Mi fedrwch chi ddweud y gair 'newid' i symud y plant yn eu blaen, neu beth am ddefnyddio gêm fel 'Jenga' fel eu bod yn cymryd eu tro i rannu atgof wrth iddyn nhw symud darn).

**Gweithgaredd B: Olion Traed**
Wrth i chi symud i ysgol neu ddosbarth newydd, tybed beth wnewch chi ei adael ar ôl?

**Estynnwch wahoddiad i'r plant wneud olion traed.** Os ydych am ddefnyddio mwd neu dywod, yna byddai modd tynnu lluniau â chamera er mwyn creu arddangosfa ohonynt. Os ydych am ddefnyddio paent neu am wneud amlinelliad o'u traed, gallai hyn fod yn rhan o arddangosfa maent yn ei gadael ar ôl. Efallai y gallan nhw: ysgrifennu eu henw, dweud gweddi, rhoi gair o gyngor i'r plant hynny fydd yn dilyn **'yn ôl ein traed'**.

**Darlleniad o'r Beibl: Josua 1:9 wedi ei addasu (o fersiwn Beibl.net)** Cofia fy mod wedi gorchymyn iti fod yn benderfynol a hyderus! Paid ag ofni na digalonni, oherwydd yr wyf i, yr Arglwydd dy Dduw, gyda thi ble bynnag yr wyt ti'n mynd."

**Gweddi**

**O Dduw Cariadus,**
**Helpa fi nawr wrth i mi gamu i'r dyfodol, gan fynd â llawer o wahanol atgofion gyda fi, a gadael eraill ar ôl. Helpa fi i fod â ffydd, a gwybod y byddi di'n cerdded gyda fi ar fy nhaith.**

**Amen**

ESGOBAETH LLANELWY
TYFU FFYDD • DOD Â GOBAITH • DANGOS CARIAD
GROW FAITH • BRING HOPE • DEMONSTRATE LOVE
DIOCESE OF ST ASAPH



# GWYNT

**Byddwch chi angen:** Cymysgedd creu swigod a chynhwysydd
**Bydd pawb angen:** Rhywbeth i fod yn hudlath ar gyfer y swigod (gweler y daflen syniadau)

**Myfyrdod:** Tybed beth yw eich gobeithion a'ch breuddwydion ar gyfer y dyfodol? Mewn 10 mlynedd tybed pa fath o gartref hoffech chi fyw ynddo? Sut ydych chi'n dychmygu'ch hunan yn ennill eich cyflog? Tybed pwy fydd y bobl bwysig hynny yn eich bywyd chi, a pha bethau fyddwch chi'n eu gwneud fydd yn gwneud gwahaniaeth i eraill? Tybed pa wahaniaeth fydd adnabod Duw yn ei wneud i'ch bywyd chi hefyd? A tybed sut fydd ysgol wedi'ch helpu chi?

**Gweithgaredd:** Treuliwch rywfaint o amser yn chwythu swigod a'u gwylio'n hedfan i ffwrdd wrth i chi feddwl am eich gobeithion a'ch breuddwydion.

**Darlleniad o'r Beibl:** Jeremeia 29:11 (addasiad o fersiwn Beibl.net)
Fi yn unig sydd yn gwybod y cynlluniau sydd gen i ar dy gyfer di, meddai'r ARGLWYDD, cynlluniau i ddod â llewyrch nid trychineb i ti, cynlluniau i sicrhau'r dyfodol yr wyt ti yn gobeithio amdano.

ESGOBAETH LLANELWY
TYFU FFYDD • DOD Â GOBAITH • DANGOS CARIAD
GROW FAITH • BRING HOPE • DEMONSTRATE LOVE
DIOCESE OF ST ASAPH

# Gweddi

**O Dduw Cariadus,**
**Diolch y gallaf ymddiried ynot ti efo fy ngobeithion a fy mreuddwydion, gan wybod dy fod eisiau'r gorau imi yn fy mywyd.**

**Amen**




**TÂN**
**Byddwch angen:** cannwyll, matsis
**Mae pawb angen**: cannwyll

**Myfyrdod:** Roedd holl ffrindiau'r Iesu gyda'i gilydd, yn aros yn Jerwsalem fel roedd wedi dweud wrthyn nhw am wneud. Roedd yn 50 diwrnod wedi'r Pasg a 10 diwrnod ers i'r Iesu fynd yn ôl i'r nefoedd. Tybed sut roedd y bobl yn teimlo wrth iddyn nhw aros? Doedden nhw ddim yn gwybod pam bod Iesu wedi dweud wrthyn nhw am ddod at ei gilydd na beth oedd am ddigwydd ac rwy'n siŵr eu bod yn ofnus am y dyfodol. Yn sydyn ymddangosodd yr Ysbryd Glân ar ffurf gwynt a thân. Nid oedd ffrindiau'r Iesu bellach yn teimlo ofn. Rhoddodd yr Ysbryd Glân y nerth a'r dewrder iddyn nhw fynd allan a gwneud pethau newydd.
Tybed sut mae symud ymlaen i ysgol newydd yn gwneud i chi deimlo? Mae'n bosib eich bod yn teimlo'n drist iawn eich bod yn gadael yr ysgol hon, neu'n poeni am ble rydych chi'n mynd. Efallai eich bod yn poeni ychydig am bethau fel mynd ar goll, pynciau newydd, athrawon a gwaith cartref, neu efallai eich bod yn teimlo'n gyffrous ac yn edrych ymlaen at wneud ffrindiau newydd ac at gael cyfleoedd newydd. Mae'n bosib eich bod hefyd yn teimlo'n gyffrous am y siwrnai newydd o'ch blaen ac yn meddwl tybed i ble bydd yn mynd â chi. Yn union fel y daeth yr Ysbryd Glân at ffrindiau'r Iesu a rhoi'r cryfder a'r dewrder yr oeddynt ei angen i fynd ymlaen at ddyfodol newydd, mae'r Ysbryd Glân yn addo gwneud yr un peth drosom ni heddiw.

**Gweithgaredd:** Wrth inni gynnau cannwyll, mae'n ein hatgoffa bod Iesu gyda ni bob amser.




**Darlleniad o'r Beibl:** Actau 2:1-4 (addasiad o fersiwn Beibl.net)
Pan ddaeth Diwrnod y Pentecost, roedd yr holl gredinwyr wedi ymgasglu gyda'i gilydd mewn un lle. Yn sydyn daeth sŵn o'r awyr, fel gwynt cryf yn chwythu, ac fe lenwodd yr holl dŷ ble roedden nhw'n eistedd. Yna fe welon nhw rywbeth oedd yn edrych fel tafodau o dân oedd yn ymestyn allan gan gyffwrdd pob person oedd yno. Cawsant i gyd eu llenwi â'r Ysbryd Glân a dechrau siarad mewn ieithoedd eraill, wrth i'r Ysbryd eu galluogi i siarad.

**Cyflwyniad:** Efallai mai dyma pryd bydd yr ysgol a'r eglwys leol yn cyflwyno rhoddion i'r plant wrth iddynt baratoi i symud ymlaen.

**Gweddi**

**O Dduw Cariadus,**
**Wrth imi deithio o'r hen i'r newydd.**
**Helpa fi i wybod dy fod ti yn teithio gyda mi drwy dy Ysbryd Glân ac y byddi di'n rhoi'r cryfder a'r dewrder sydd ei angen arnaf i.**
**Amen**

## Bendith

**Boed i'r Arglwydd eich bendithio chi a'ch amddiffyn chi, boed i'r Arglwydd wenu'n garedig arnoch chi a bod yn hael tuag atoch chi, boed i'r Arglwydd fod yn dda atoch chi a rhoi heddwch i chi;**

**Amen**

**Gweithgaredd olaf: (dewisol)**

Efallai bod hwn yn gyfle i orffen gyda thostio malws melys dros dân, neu gael picnic!